

cta

community transport
association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL



Partneriaeth Ogwen

Prosiect Dyffryn Gwyrdd

Mae dyfodol mwy cynaliadwy lle mae'r economi leol yn ffynnu, ac arian yn cael ei ail-fuddsoddi yn ôl i'r ardal er budd y gymuned ehangach, yn rhywbeth y mae Meleri Davies yn credu'n gryf ynddo. Meleri ydy Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen - menter gymdeithasol a leolir ym Methesda, ac mae hi wedi gweithio gyda Cysylltu Cymunedau yng Nghymru, Cyfeillion y Ddaear, a grwpiau cymunedol lleol, i ddatblygu prosiect Dyffryn Gwyrdd, a fydd yn cynnwys cynllun car cymunedol trydan fel rhan o gynlluniau cynaliadwy ehangach.

Dywed Meleri, "Bydd ein prosiect Dyffryn Gwyrdd yn helpu i fynd i'r afael â thlodi, yn lleddfu arwahanrwydd ac unigrwydd, ac yn ennyn diddordeb pobl mewn prosiectau a arweinir gan y gymuned. Byddwn yn rhedeg car cymunedol trydan ar ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol. Rydyn ni wedi bod yn cynnal cynllun peilot car cymunedol, ac wedi dysgu llawer trwy wneud hyn gan fod y cerbyd wedi'i ddefnyddio at wahanol ddibenion, gan gynnwys danfon bwyd a phresgripsiynnau yn ystod pandemig y coronafeirws. Gwnaethon ni addasu'r defnydd o'r car cymunedol peilot yn ystod y cyfnod hwnnw, gan ei ddefnyddio i gludo cynnyrch lleol i bobl. Fe wnaethon ni sefydlu plattform ar-lein a dosbarthu'r bwyd i aelwydydd lleol. Mae'r cynllun newydd wedi cael ei groesawu gan ein cymuned gan ei fod yn helpu i leihau milltiroedd bwyd, yn cefnogi cynnyrch lleol, ac yn lleihau allyriadau carbon gan fod y car yn un trydan."

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar helpu pobl hŷn ac anabl y gallai fod yn anodd iddynt ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Yn ogystal, gallai pobl iau sydd ddim yn gallu fforddio eu car eu hunain ddefnyddio'r car i gyrraedd y gwaith. Mae yna obaith hefyd y gallai'r profiad o ddefnyddio cerbyd trydan annog rhai pobl i brynu ceir trydan eu hunain. Mae Meleri'n credu'n gryf bod newid agweddau pobl tuag at gerbydau trydan, a pherchnogaeth car yn ehangach, yn elfennau hollbwysig yn y broses o annog teithio carbon isel.

"Mewn gwirionedd, datblygodd prosiect Dyffryn Gwyrdd o ddigwyddiad cymunedol a gynhaliwyd gennym yn ôl yn 2018," meddai Meleri. "Dyma oedd y man cychwyn ar gyfer darganfod beth roedd pobl eisiau ei weld yn digwydd yn yr ardal. Ers hynny, rydyn ni wedi parhau i drafod gyda Chyfeillion y Ddaear a thîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru i ddatblygu briff prosiect y Loteri Wledig. Gofynnir i mi weithiau pam mae'r prosiect yn bwysig - mae'n bwysig oherwydd y bydd y camau rydyn ni'n eu cymryd heddiw yn cael effaith sylweddol ar genedlaethau'r dyfodol. Er bod gwahanol elfennau i'r prosiect - cludiant cymunedol,

gwirfoddoli, prentisiaethau, effeithlonrwydd ynni a lleddfu tloidi tanwydd - mae'n rhan o ffordd hollol wahanol o edrych ar sut rydyn ni'n defnyddio adnoddau ac yn harneisio egni ac angerdd pobl dros adael y rhan hon o'n byd yn lle gwell."

"Roedd angen i ni sicrhau costau cyfalaf ar gyfer prynu ein cerbyd trydan ein hunain," ychwanegodd Meleri, "gan ein bod yn rhoi'r car cymunedol peilot yn ôl ym mis Hydref. Yn ogystal â char, roedd angen i ni dalu costau cynnal ar gyfer cyflogi cydlynedd a swyddog gwirfoddolwyr. Roedd y costau hyn yn rhan o'r prosiect arfaethedig, felly buom yn gweithio gyda Chyfeillion y Ddaear a Chysylltu Cymunedau yng Nghymru i ddatblygu'r cynnig a pharatoi i gyflwyno cais am arian o'r Loteri Wledig. Roedd cael cefnogaeth y ddau bartner yma yn cryfhau ein cais ac mi gawson ni dros £490,000. Mae'r cyllid hwn yn golygu y gallwn wireddu ein prosiect Dyffryn Gwyrdd, ac mae gennym gynlluniau eraill ar gyfer datblygu cludiant cymunedol ymhen amser."

Unwaith y bydd elfen cludiant cymunedol y prosiect wedi'i sefydlu bydd yn golygu gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau i lawer o drigolion lleol mewn ffordd gynaliadwy ac ecogyfeillgar.

Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn ctauk.org/cciw-cymraeg.

